



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Ffermwyr Defaid – Rheoli'r tywydd sych

Mae rheoli tywydd sych yn llwyddiannus yn dibynnu ar gynllunio, monitro a gweithredu. Mae bod yn rhagweithiol a chael cynllun wrth gefn yn helpu i leihau straen, yn ogystal â lleihau'r effaith ar berfformiad ariannol eleni a'r flwyddyn nesaf. Dylai'r ffermydd hynny sy'n profi amodau sych yn rheolaidd yn ystod misoedd yr haf gael cynllun wrth gefn, yn nodi'r camau allweddol i'w cymryd pan fydd y tywydd yn troi'n sych.

I. MONITRO'R SEFYLLFA

Yn ystod cyfnodau o dywydd sych mae monitro'r fferm a'r amgylchedd ehangach yn ofalus yn allweddol.

- Cerddwch o amgylch y fferm yn wythnosol neu fesurwch o leiaf 30% o'ch fferm bob wythnos i asesu cyfradd tyfu porfeydd a'r porthiant sydd ar gael. Dylai hyn gynnwys caeau sydd wedi'u cau ar gyfer silwair y gellir eu pori.
- Cyfrifwch alw'r anifeiliaid fesul kgDM/ha a chymaru hyn â thwf porfeydd fesul kgDM/ha.
- Blaenoriaethwch grwpiau da byw ar sail y math o stoc, cyfnod llaetha a chyflwr y corff.

2. GWEITHREDU

A. Gallwch leihau'r galw fesul ha drwy wneud y canlynol:

- i. Gwerthu hen famogiaid.
- ii. Gwerthu anifeiliaid wedi'u pesgi ar gyfer eu lladd neu eu gwerthu fel anifeiliaid stôr. Ystyried dethol wŷn ar gyfer eu lladd yn gynnar, gostwng pwysau carcasau i'w gwerthu i 18-19kgDW.
- iii. Pori caeau silwair
 1. Torri unrhyw gaeau uwchben 4,000kgDM/ha i ddod â nhw yn ôl i'r system bori cylchdro.
 2. Pori caeau lle mae'r gorchudd yn is na 3,000kgDM/ha gyda stoc bridio sych neu famogiaid ac wŷn.
- iv. Diddyfnu wŷn
 1. Rhoi dwysfwydydd ar y glaswellt i wŷn < 10 wythnos oed, dethol wŷn wedi'u pesgi ar gyfer eu lladd.
 2. Diddyfnu wŷn > 10 wythnos oed yn gynnar, mae diddyfnu wŷn yn lleihau galw'r mamogiaid am hyd at 60% ar y fferm.
 3. Ar ôl diddyfnu, cynnig gwair i'r mamogiaid neu eu pori ar dir garw, mae'n dal i fod yn allweddol i gynnal sgôr cyflwr corff y mamogiaid (BCS).

B. Cynnal targed hyd y cyfnod cylchdro:

- i. **Gwndwn rhygwellt a meillion cynhyrchiol** - cyfnod cylchdro 25 diwrnod o hyd. Pori 4% o'ch fferm bob dydd.
- ii. **Gwndwn llysieuol/cymysgedd o feillion yn bennaf/porfa barhaol** - cyfnod cylchdro 33 diwrnod o hyd. Pori 3% o'ch fferm bob dydd.

C. Defnyddio ychwanegion i wneud iawn am unrhyw ddiffyg yn y porthiant.

3. YCHWANEGION – PRYD I'W RHOI?

“Mae'n bwysicach i wneud y mwyaf o incwm ar ôl sychder nag ydyw i leihau costau yn ystod sychder”.

- A. Ceisiwch gynnal gorchudd fferm cyfartalog (AFC) o 1,800kgDM/ha o leiaf, bydd hyn yn sicrhau ymateb buan pan fydd y glaw yn dod.
- B. Ystyriwch pa ychwanegion sydd gennych ar y fferm. Aseswch faint ac ansawdd pob un.
- C. Cyfrifwch ofynion yr anifeiliaid. Mae angen porthiant o ansawdd uchel ar famogiaid sy'n llaetha ac wŷn ond gellir rhoi porthiant o ansawdd cyffredin i famogiaid sych os yw'r sgôr cyflwr y corff yn caniatáu hynny.
- D. Os oes angen i chi brynu ychwanegion, gwnewch hynny yn gynnar cyn i'r stoc fynd yn brin a'r prisiau gynyddu!

Cyfrifo faint o ychwanegion sydd eu hangen bob dydd

Enghraifft: 400 o famogiaid sydd wedi bwrw efeilliaid â'r wŷn yn pori wrth eu traed ar ardal o 20ha.

1. Dyranriad arwynebedd dyddiol (ha/y diwrnod)

Arwynebedd yr ardal bori (20ha) * % i bori fesul diwrnod (4%) = Dyranriad arwynebedd dyddiol (0.8 ha/y diwrnod)


2. Porthiant sydd ar gael a'r galw am borthiant (Cyfanswm kgDM/y diwrnod)

- Gorchudd cyn-pori (e.e. 2,300 kgDM/ha) – Gorchudd ar ôl pori (e.e. 1,500 kgDM/ha) = Glaswellt sydd ar gael (800 kgDM/ha)
- Glaswellt sydd ar gael (800 kgDM/ha) * Arwynebedd y padog (0.8ha) = Cyfanswm y glaswellt sydd ar gael (640 kgDM)
- Nifer y defaid (400) * Cymeriant dyddiol o'r glaswellt (2.6kgDM/y pen)¹ = Galw'r ddiadell am laswellt bob dydd (1,040 kgDM)

3. Ychwanegion sydd eu hangen bob dydd (kgDM)

Galw'r ddiadell bob dydd (1,040kgDM) – Cyfanswm y glaswellt sydd ar gael bob dydd (640kgDM) = Angen am 400 kgDM o ychwanegion bob dydd.

Pwysigrwydd gwarchod gorchudd cyfartalog y fferm (AFC)



¹ Pwysau byw (65 kg) * Galw fel % o bwysau'r corff (4% BW) = Cymeriant dyddiol o'r glaswellt y pen (2.6 kgDM/y pen)

Gwrtaith

Mae angen lleithder ar wrtaith nitrogen (N) er mwyn i'r planhigyn ei gymryd i mewn, felly dylech asesu lleithder y pridd a chyfraddau tyfu'r glaswellt.

- Gellid defnyddio gwrtaith hanner cyfradd lle mae'r glaswellt yn dal i dyfu/trydarthu (ddim yn marw).
- Arhoswch i'r glaw gyrraedd a pheidiwch â cheisio dal i fyny – rhwch y swm cywir o wrtaith ar y tir ar yr amser cywir.
- Defnyddiwch wrtaith cyfansawdd os yn bosibl (NPK/NK) i gynyddu cymeriant N.

Trosolwg o'r camau i'w cymryd yn ystod tywydd sych

Gorchudd Fferm Cyfartalog < 1,500 kgDM/ha	Symud y stoc o'r borfa a rhoi 100% porthiant nes bydd cyfraddau tyfu'r gwair yn fwy na'r galw.
Gorchudd Fferm Cyfartalog 1,500 – 1,800 kgDM/ha	Cyfrifo diffyg porthiant o'r glaswellt (cyfrifiad uchod) a llenwi'r bwch ag ychwanegion ar y glaswellt. Symud y stoc bob 1-4 diwrnod i gynyddu defnydd.
Gorchudd Fferm Cyfartalog 1,800 – 2,300 kgDM/ha	Monitro twf yn erbyn y galw. Os mae'r diffyg porthiant yn fwy na 10 kgDM/y dydd, ychwanegu ychwanegion i'r system i gynnal gorchudd fferm cyfartalog.